Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

---

5 Rhagfyr/December, 2017

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn ar **ddydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2017 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 10.00 o'r gloch yb** i ystyried materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,
*Dr Gwynne Jones*
**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Tuesday, 12 December, 2017 at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni at 10.00 a.m.,** to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Dr Gwynne Jones*
**SECRETARY**

---

**Ysgrifennydd/Secretary :** Dr. Gwynne Jones **Trysorydd/Treasurer :** Mr. Marc Jones

**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

**R H A G L E N**

**1** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **<u>COFNODION</u>** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 19 Medi, 2017.

**3** **<u>ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL</u>** (Tudalennau 5 - 8)

**Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau**

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau a gafwyd ar 7 Tachwedd, 2017.

**4** **<u>Y CYNNYDD A WNAED O RAN DYFARNU GRANTIAU MWY</u>** (Tudalennau 9 - 10)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

**5** **<u>DIWEDDARIAD AR STATWS Y GRANTIAU MAWR A DDYFARNWYD YN 2016 A 2017</u>** (Tudalennau 11 - 16)

Cyflwyno adroddiad ddiweddaraf gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | T Ll Hughes MBE (Cadeirydd)<br>Richard Owain Jones (Is-gadeirydd)<br><br>John Griffith, Glyn Haynes, R Ll Jones, G O Jones, Eric Wyn Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Nicola Roberts, P S Rogers a Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM o hyn ymlaen).**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Lewis Davies, R Dew, Richard Griffiths, K P Hughes, Vaughan Hughes, Carwyn Jones, A M Jones, R.Meirion Jones, Shaun James Redmond, J A Roberts, Dafydd Roberts, Ieuan Williams a Robin Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd Mr. Bob Parry OBE FRAgS ddiddordeb mewn perthynas ag Eitem 3 – Cais 013 – Cyngor Cymuned Bryngwran (Ffens ychwanegol yn y cae chwarae).

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf, 2017 fel rhai cywir.

### 3 ADRODDIADAU GAN IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2017 er gwybodaeth.

**Yn codi o'r cofnodion**

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd at gais 028 – Pwyllgor Celfyddydau Gweledol Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn, a dywedodd fod y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol wedi derbyn llythyr manwl gan Ysgrifennydd y Pwyllgor Celfyddydau Gweledol ar ôl y cyfarfod a oedd yn codi nifer o faterion y cyfeiriwyd atynt yn y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol ynghylch y diffyg gwybodaeth gyda’r cais gwreiddiol. Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi trafod y wybodaeth ychwanegol gyda'r Cadeirydd a benodwyd ar y diwrnod ar gyfer y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol ac yn dilyn ei

drafodaethau gydag Aelodau'r Pwyllgor a oedd yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2017 penderfynwyd cefnogi'r cais.

Adroddwyd bod gohebiaeth wedi'i hanfon at Ysgrifennydd y Pwyllgor Celfyddydau Gweledol ond hyd yn hyn ni dderbyniwyd ymateb.

**4 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

"O dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A (Categori 16) o'r Ddeddf honno. "

**5 LLYWODRAETHU YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN (YEYM) A CHYMDEITHAS ELUSENNOL YNYS MÔN / THE ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE ASSOCIATION**

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â ffurfio Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE), fel y cymeradwywyd gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr, 2016 ac i gytuno ar y camau cysylltiedig y bydd angen eu cymryd.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, fel rhan o'r cais i gofrestru'r SCE, fod y Comisiwn Elusennau wedi dwyn sylw at ddau fater bach ym Mholisi Grantiau'r Ymddiriedolaeth Elusennol a chytunodd y Cyfreithwyr allanol nad yw'r un o'r ddau fater hyn yn ddibenion elusennol ac y dylid eu tynnu allan o'r polisi. Mae'r cais bellach wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Elusennau ac mae'r SCE wedi'i greu a'i gofrestru fel endid cyfreithiol ar wahân.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol yr adroddiad i sylw'r Pwyllgor a nododd yr awgrymir bod y Panel a sefydlwyd gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn cael ei ailgynnull i drafod gwahanol faterion gweinyddol a gweithredol y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn caniatáu trosglwyddo'n llyfn i SCE.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Tynnu'r ddau ymadrodd canlynol o'i Bolisi Grantiau am y rhesymau a roddir yn yr adroddiad hwn: "o fudd i ddatblygu twristiaeth" ac "o ddefnydd yng ngweithgareddau datblygu economaidd y Cyngor";**
- **Cytuno y dylai trosglwyddiad yr asedau o YEYM i'r SCE ddigwydd ar ddyddiad hwyrach, sef 1 Ebrill 2018 mwy na thebyg, ac ar ôl cyflwyno adroddiad pellach i YEYM yn amlinellu'r camau sydd eu hangen, ac a gynigir ac sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad;**
- **Dirprwyo i Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth yr holl bwerau a hawliau angenrheidiol i:**
  - **Gynnull y Panel o 5 aelod etholedig i ymgymryd ag unrhyw waith sy'n angenrheidiol i baratoi rhaglen waith ar gyfer trosglwyddo o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i'r Sefydliad Corfforedig Elusennol;**
  - **Parhau i gyfarwyddo'r cyfreithwyr allanol i gynghori Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar y trosglwyddiad i'r Sefydliad Corfforedig Elusennol, yn unol â phenderfyniad Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn dyddiedig 15 Rhagfyr 2015 ac ar y telerau yn Nghytundeb Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer Cyfreithwyr Allanol.**

**Mr. T. Ll. Hughes MBE**
**Cadeirydd**

1

This page is intentionally left blank

# Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Mri. K P Hughes, R Ll Jones, G O Jones, Alun W Mummery a Dafydd Roberts |
| **WRTH LAW:** | Y Trysorydd,<br>Swyddog Cymorth / Pwyllgor (SC). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Mri. T Ll Hughes MBE, A M Jones, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. Richard O Jones – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br><br>Mr. Rupert Cecil, Cyfarwyddwr – Tîm Elusennau HSBC |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Mr R O Jones yn Gadeirydd.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mr RLl Jones yn Is-Gadeirydd.

**3 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**4 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd, 2016.

**5 RHEOLI BUDDSODDIADAU**

Cyflwynwyd – adroddiad HSBC Global Asset Management (UK) Limited am y cyfnod hyd at fis Hydref 2017.

Dywedodd Cyfarwyddwr Tîm Elusennau HSBC eu bod yn adrodd yn chwarterol ar berfformiad cronfa’r Ymddiriedolaeth. Rhoddodd gipolwg i Aelodau'r Pwyllgor ar gefndir y portffolio buddsoddi a nododd fod buddsoddiad Ymddiriedolaethau Elusennol Ynys Môn yn cael ei fuddsoddi yn y Strategaeth Twf ac Incwm sy'n bortffolio aml-ased. Gwerth y portffolio ar 30 Medi, 2017 oedd £22,947,867. Yr elw a ragwelir o’r portffolio oedd 7.67% (gros) gyda 7.36% (net).

Rhoddwyd gwybodaeth ychwanegol a manwl i’r Pwyllgor am ddosbarthiad yr asedau a pherfformiad gwahanol elfennau'r portffolio.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn dymuno cyfleu eu gwerthfawrogiad i HSBC Investment Management am berfformiad eithriadol cronfa’r Ymddiriedolaeth Elusennol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a diolch i'r Cyfarwyddwr – Tîm Elusennau HSBC am fynychu'r cyfarfod.**

## 6 DYRANNU CYLLID AR GYFER GRANTIAU MWY

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â dyrannu cyllid ar gyfer grantiau mwy yn 2018.

Dywedodd y Trysorydd bod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn wedi neilltuo swm o arian yn 2016 a 2017 i ariannu ceisiadau llwyddiannus am grantiau mwy (dros £8,000). Yn 2016, dyrannwyd £200,000 ac yn 2017 dyrannwyd £350k. Yn 2017 rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r broses o wneud cais am arian ac fe arweiniodd hynny at yr Ymddiriedolaeth yn cael 31 o geisiadau gan sefydliadau a oedd yn werth cyfanswm o £1.6m. Ar ôl i'r Pwyllgor Adfywio ystyried a gwerthuso'r ceisiadau roedd 12 ohonynt yn llwyddiannus a dyfarnwyd y cyfan o'r £350k ar ffurf grantiau.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i 3 opsiwn: -

1. Yn seiliedig ar 20% o'r cynnydd yn y gwerth cyfalaf (heb gynnwys gwerth yr arian a drosglwyddwyd i'r Portffolio yn sgil gwerthu safle Rhosgoch) – byddai hyn yn darparu cronfa o £177,000 ar gyfer y grantiau mwy yn 2018.

2. Yn seiliedig ar 20% o'r cynnydd yn y gwerth cyfalaf (gan gynnwys gwerth yr arian a drosglwyddwyd i'r Portffolio yn sgil gwerthu safle Rhosgoch) – byddai hyn yn darparu cronfa o £577,000 ar gyfer y grantiau mwy yn 2018.

3. Cynnal gwerth y gronfa fel yr oedd yn 2017 h.y. £350,000.

Yn dilyn trafodaethau ac ar ôl ystyried yr effaith ar y gronfa petai gwerth y buddsoddiadau yn disgyn **PENDERFYNWYD argymell opsiwn 3 i'r Ymddiriedolaeth Elusennol a bod £350,000 ar gael tuag at gyllido grantiau mwy yn 2018.**

**Mr R O Jones**
**Cadeirydd**

1

This page is intentionally left blank

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD** | **12 RHAGFYR 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Y cynnydd a wnaed o ran dyfarnu grantiau mwy** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cytuno ar y broses ar gyfer dyfarnu grantiau mawr gan gynnwys penderfynu lefel yr arian fydd ar gael a'r broses ar gyfer monitro'r grantiau a ddyfernir** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Trysorydd – Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn** |
| **GWEITHREDU** | **Penderfynu derbyn yr argymhellion a gyflwynwyd gan Swyddogion yr Ymddiriedolaeth** |

**1. RHAGARWEINIAD**

**1.1** Yn 2016 a 2017, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn dyfarnu grantiau mwy i sefydliadau. Yn 2016, derbyniodd 4 sefydliad gymorth ariannol a oedd yn werth cyfanswm o £230,000. Yn 2017, dilynwyd proses fwy ffurfiol ac estynnwyd gwahoddiad agored i sefydliadau gyflwyno ceisiadau am gymorth. Derbyniwyd cyfanswm o 31 o geisiadau a bu 12 o sefydliadau'n llwyddiannus, gan dderbyn grantiau o rhwng £10,000 a £50,000. Dyfarnwyd cyfanswm o £350,000 o grantiau.

**1.2** Mae adroddiad sy'n ymhelaethu ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob prosiect wedi'i gynnwys fel eitem ar wahân ar raglen y Pwyllgor hwn.

**2. PARHAU I DDYFARNU GRANTIAU MWY**

**2.1** Pwrpas yr Ymddiriedolaeth yw defnyddio'r gronfa er budd pobl Ynys Môn yn unol ag amcanion yr Ymddiriedolaeth. Mae dyfarnu'r grantiau mwy wedi cyfrannu at gyflawni'r nod hwn, ond gellir dadlau nad yw'r dull hwn o ddosbarthu'r arian yn ffordd strategol o wneud hynny ac efallai nad yw'n arwain at sicrhau'r budd mwyaf i drigolion Ynys Môn, h.y. asesir ceisiadau yn ôl eu rhinweddau ac yn ôl a ydynt yn bodloni meini prawf yr Ymddiriedolaeth yn hytrach nag ar sail sut maent yn integreiddio i gyflawni amcan strategol ehangach ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

**2.2.** Ni all yr Ymddiriedolaeth gyfredol gyflogi ei staff ei hun ac, o ganlyniad, mae cyfyngiad ar yr hyn y gellir ei gyflawni ac mae'n debyg mai dosbarthu grantiau yn y modd hwn yw'r gorau y gall yr Ymddiriedolaeth ei wneud, o ystyried yr adnoddau presennol. Bydd symud i Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) yn caniatáu i'r Ymddiriedolaeth ailystyried sut mae'n defnyddio ei chronfeydd er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i bobl Ynys Môn.

**2.3.** Felly, cynigir y dylid dilyn y broses grantiau mawr eto yn 2018 a bod yr SCE wedyn yn adolygu a ddylid parhau i ddyfarnu grantiau mwy.

**3. CYLLIDO GRANTIAU MWY**

**3.1.** Cyfarfu'r Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau ar 7 Tachwedd 2017 ac, ar ôl ystyried perfformiad y portffolio buddsoddi dros y 12 mis blaenorol ynghyd â'r risgiau a'r angen i gynnal gwerth y gronfa ar lefel sy'n cynhyrchu digon o incwm blynyddol, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r swm sydd ar gael ar gyfer grantiau mwy barhau ar yr un lefel ag yn 2017 h.y. £350,000.

## 4. Y BROSES O WNEUD CAIS AM GRANTIAU MWY

**4.1.** Fe weithiodd y broses ymgeisio yn dda yn 2017 oherwydd cafwyd nifer fawr o geisiadau yn dilyn hysbysebu mewn papurau newydd lleol ac yn sgil gwneud defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol (Twitter a Facebook) a gwefan y Cyngor i hysbysebu'r cyfle.

**4.2.** Roedd y broses ymgeisio'n rhedeg o ganol mis Rhagfyr 2016 hyd at 31 Ionawr 2017, gyda cheisiadau yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Adfywio ym mis Chwefror 2017 a'u cadarnhau gan yr Ymddiriedolaeth lawn ar 18 Ebrill 2017.

**4.3.** O ystyried bod y broses hon wedi gweithio'n dda, cynigir dilyn yr un drefn yn 2018.

## 5. MEINI PRAWF CYMHWYSTER

**5.1** Yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2016, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth: -

- gall sefydliad wneud ceisiadau am gymorth gyda chostau rhedeg ond mae'n rhaid i'r sefydliad allu dangos yn eglur yn y cais sut y bydd yn sicrhau hyfywedd ariannol y prosiect yn y dyfodol unwaith y bydd yr arian gan yr Ymddiriedolaeth yn dod i ben;

- gall sefydliad sydd wedi derbyn grant bach yn flaenorol wneud cais am grant mwy ond ni all sefydliad dderbyn grant bach a grant mawr mewn dwy flynedd yn olynol a dim ond un grant bach ac un grant mawr a roddir mewn unrhyw gyfnod treigl o bum mlynedd.

**5.2** Mae ymgeiswyr a dderbyniodd arian yn 2017 wedi bod yn gofyn a allant wneud cais pellach yn 2018.

**5.3** Gan mai diben yr Ymddiriedolaeth yw defnyddio'r arian er budd trigolion Ynys Môn, byddai'n anodd cyfiawnhau peidio â chaniatáu i sefydliadau wneud cais am grantiau, yn enwedig pe na bai'r holl arian a neilltuwyd wedi ei ddyrannu. Felly, cynigir y gall sefydliadau a dderbyniodd arian yn y pum mlynedd diwethaf gyflwyno ceisiadau ond rhoddir blaenoriaeth i geisiadau gan sefydliadau nad ydynt eisoes wedi derbyn cyllid.

## 6. ARGYMHELLION

**6.1** Gofynnir i'r Ymddiriedolaeth gymeradwyo'r argymhellion canlynol: -

1. Dyrannu grantiau mwy eto yn 2018 a bod yr SCE, unwaith y bydd wedi ei sefydlu, yn adolygu a ddylid parhau i ddyfarnu grantiau mwy o 2019 ymlaen.
2. Dyrannu swm o £350,000, fel yr argymhellir gan y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau, i ariannu'r grantiau mwy yn 2018.
3. Gwahoddir ceisiadau ar unwaith gyda dyddiad cau o 31 Ionawr 2018 ar gyfer cyflwyno’r ceisiadau.
4. Bod y Pwyllgor Adfywio yn ystyried y ceisiadau a dderbynnir yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2018 a bod ei argymhellion yn cael eu hystyried gan yr Ymddiriedolaeth Lawn ar 17 Ebrill 2018.
5. Gall sefydliadau sydd wedi derbyn cymorth ariannol yn y pum mlynedd flaenorol wneud ceisiadau ond ni fydd y fath geisiadau yn cael eu hystyried tan y bydd yr holl geisiadau eraill wedi cael sylw ac ar yr amod bod cyllid yn dal i fod ar gael.

**MARC JONES**
**TYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **30 TACHWEDD 2017**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **12 RHAGFYR 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **DIWEDDARIAD AR GYNNYDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi diweddariad ar statws y grantiau mawr a ddyfarnwyd yn 2016 a 2017.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD - YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **Gofynnir i Aelodau'r Ymddiriedolaeth nodi cynnwys yr adroddiad** |

**1. CEFNDIR**

**1.1** Dyfarnwyd pum grant mawr yn ystod 2016/17 a deuddeg yn 2017/8 . Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a'r gwariant hyd yma.

**2 DYFARNU GRANTIAU A CHYNNYDD**

**2.1** Mae rhestr o'r grantiau mawr a ddyfarnwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf ynghlwm yn Atodiad A.

**2.2** Sefydlwyd Cytundebau Cyllido gyda'r holl brosiectau 'byw' lle sicrhawyd cyllid cyfatebol – ac eithrio'r Eisteddfod. Cynhaliwyd Ymweliadau Ymgysylltu gyda'r holl brosiectau ac eithrio Cyngor Cymuned Llanfair M.E. Bydd rhaglen Ymweliadau Monitro yn cael ei gweithredu dros oes y prosiectau i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n iawn a bod cynnydd yn cael ei wneud ac y gellir dangos tystiolaeth lawn o'r gwariant.

**2.3** Mae'r cynnydd a wnaed gyda'r prosiectau cyfalaf wedi bod yn araf a hynny'n bennaf oherwydd problemau sy'n gysylltiedig â sicrhau cyllid cyfatebol ond, mewn rhai achosion, mae'r cymorth a cafwyd gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi bod yn sbardun ar gyfer sicrhau cyllid ychwanegol.

**MARC JONES**
**TRYSORYDD -**
**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **29 TACHWEDD 2017**

**ATODIAD A**

| 2016 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect** | **Grant** | **Gweithgaredd** | **Cynnydd** | **Grant a Hawliwyd** |
| Maes Sioe Môn | £60,000 | Estyniad i'r Prif Bafiliwn ac adeiladu bloc toiledau, bloc cawodydd ac ystafelloedd newid newydd. Adeiladu porthdy mynediad a swyddfa docynnau newydd. | Bu oedi sylweddol gyda'r prosiect oherwydd oedi wrth sicrhau cyllid cyfatebol ac yn sgil tendrau'n dod i mewn dros y gyllideb. Mae'r estyniad i'r Pafiliwn bellach wedi'i gwblhau. Bydd gwaith ar y bloc toiledau a'r bloc cawodydd newydd a'r ystafelloedd newid yn dechrau yn fuan. Bellach fe leolir y swyddfa docynnau newydd yn y Neuadd Fwyd bresennol a fydd yn cael ei hadnewyddu. Mae'r Gymdeithas Amaethyddol yn gweithio i ddenu digwyddiadau ychwanegol ac ymwelwyr newydd. Amcangyfrifir erbyn hyn y bydd costau'r prosiect yn fwy nac a amcangyfrifwyd yn wreiddiol ond cafwyd gwariant digonol i ni allu talu'r grant yn llawn. | £60,000 |
| Menter Iaith | £50,000 | Mentrau i gefnogi defnydd o'r iaith Gymraeg ar draws Ynys Môn. | Mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio tuag at cyflogi Rheolwr, Swyddog Ieuenctid a Swyddog Teuluoedd i drefnu ystod o weithgareddau a digwyddiadau i hyrwyddo a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg. Mae digwyddiadau wedi cynnwys Theatr Ieuenctid, Panad a Sgwrs a gweithgareddau gyda phlant ysgol gynradd. | £18,335 |
| Cwmni'r Frân Wen | £45,000 | Cynyrchiadau Theatr Iaith Gymraeg ar gyfer ysgolion, theatrau a chanolfannau cymunedol. | Cyflogwyd Swyddog Cyfranogi i ymgynghori ac ymgysylltu gyda phobl ifanc yng nghynyrchiadau'r cwmni. Cynhaliwyd nifer o gynyrchiadau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynnwys: Ar y Stryd, Sgript i Lwyfan, Fi di Fi, Sbri 3, Sbectol Haul, Amrant a Tiwn. Sefydlwyd Fforymau Pobl Ifanc yn Ysgol Uwchradd Bodedern ac Ysgol David Hughes ac maent yn darparu ar gyfer sicrhau bod pobl ifanc yn cael mewnbwn i Fwrdd Rheoli'r cwmni. Elwodd 11,282 o bobl o'r gweithgareddau yn 2016/17. | £37,479 |
| Eisteddfod | £37,500 | Cyfraniad i'r Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2017 | Cynhaliwyd yr Eisteddfod o 4 i 12 Awst ac fe ddenodd 147,498 o ymwelwyr. Cynigiwyd tocynnau am bris is dros y penwythnos agoriadol. Hawliwyd y grant yn llawn. | £37,500 |

| Prosiect | Grant | Gweithgaredd | Cynnydd | Grant a Hawliwyd |
|---|---|---|---|---|
| Parc Chwaraeon Trefol Llangefni (Menter Gymdeithasol Llangefni) | £37,500 | Adeiladu Parc Chwaraeon Trefol ar dir ger Canolfan Hamdden Llangefni. | Llwyddwyd i sicrhau y cyllid sydd ei angen gan y Loteri Fawr ym mis Ionawr 2017. Bu’n rhaid cyflwyno cais cynllunio diwygiedig yn dilyn newidiadau yn nyluniad y Parc oherwydd topograffi’r safle. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ond, oherwydd yr oedi, ‘roedd y contractwr wedi cael gwaith arall nad yw wedi'i gwblhau eto. Rhaglennwyd y bydd y gwaith yn dechrau ar y safle yn gynnar ym mis Rhagfyr gyda dyddiad cwblhau ym Mai 2018. | DIM |
| **Cyfanswm** | **£230,000** | | | **£153,314** |

## 2017

| Prosiect | Grant | Gweithgaredd | Cynnydd | Grant a Hawliwyd |
|---|---|---|---|---|
| System CCTV (Cyngor Cymuned Llanfair ME) | £10,000 | System CCTV newydd. | Gosodwyd system CCTV. Cyfanswm cost y prosiect ychydig yn uwch na’r amcangyfrif gwreiddiol ond dim newid yng ngwerth y grant a ddyfarnwyd. | £10,000 |
| Canolfan Ucheldre | £30,000 | Costau rhedeg 12 mis. | Mae'r cyllid yn cefnogi costau rhedeg cyffredinol y Ganolfan, costau staffio, costau marchnata a hysbysebu rhaglen o ddigwyddiadau, gan gynnwys gweithdai, arddangosfeydd, drama, ffilm, darllediadau lloeren byw a digwyddiadau llenyddol. Mae oddeutu 50% o’r grant wedi cael ei ddyfarnu gyda’r gweddill yn cael ei ddyfarnu yn ystod 2ail hanner y flwyddyn ariannol. | £15,298 |
| Canolfan Hamdden Biwmares | £45,000 | Costau rhedeg 12 mis ac ehangu'r cyfleusterau a'r digwyddiadau sydd ar gael. | Mae rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau yn cael ei darparu sydd wedi arwain at gynnydd o 2199 yn nifer y defnyddwyr sy'n talu o gymharu â’r un cyfnod y llynedd. Ar hyn o bryd yn gweithio gydag ymgynghorydd i sicrhau’r defnydd mwyaf posib o'r cyfleusterau sydd ar gael ac i gynllunio prosiectau a gweithgareddau ar gyfer y dyfodol. Mae elfen fawr o’r gwaith yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth cymunedol trwy gyfraniad at giniawau WRVS, rheoli’r gwaith cynnal a chadw a llogi'r Bws Cymunedol, cefnogi sefydlu prosiect Shediau Dynion yn lleol a chynnal cyfarfodydd Cynghrair Seiriol a Chyfeillion Dementia Ward Seiriol. Mae oddeutu 50% o’r grant wedi cael ei ddyfarnu gyda’r gweddill yn cael ei ddyfarnu yn ystod 2ail hanner y flwyddyn ariannol. | £23,039 |

| Prosiect | Grant | Gweithgaredd | Cynnydd | Grant a Hawliwyd |
|---|---|---|---|---|
| Mind Gwynedd ac Ynys Môn | £20,000 | Costau rhedeg 12 mis. | Mae Mind wedi bod yn rhedeg y gweithgareddau canlynol ar Ynys Môn: -<br>• 4 o Gyrsiau Rheoli Pryder a ddarperir yn y gymuned, ysgol a choleg.<br>• 5 o Grwpiau Cefnogaeth gan Gymheiriaid pob mis.<br>• Cyrsiau Ymwybyddiaeth Ofalgar i oedolion a phobl ifanc 11-18 oed.<br>• 52 diwrnod o waith 1-1 yn y gymuned a gydag ysgol a choleg.<br>• Sgyrsiau a chyflwyniad ar Ymwybyddiaeth Ofalgar i Grwpiau Ieuenctid yng Nghanolfan Jessie Hughes, Caergybi a'r Hyb.<br>• Darperir Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl mewn cymunedau.<br>Mae 81 o oedolion a 60 o bobl ifanc wedi derbyn gwasanaeth ac o'r rheini:-<br>- 'roedd 86% yn dangos cynnydd yn eu hunanbarch.<br>- 'roedd 72% yn llai pryderus.<br>- 'roedd 78% yn teimlo bod ganddynt gyswllt gwell â'u cymuned.<br>- 'roedd 81% yn teimlo eu bod yn gallu rheoli eu hiechyd meddwl yn well.<br>Bu i'r grant gyfrannu 50% o'r costau rhedeg blynyddol ac mae'r swm a ddyfarnwyd hyd yma yn seiliedig a'r y costau sydd wedi eu derbyn. | £6,176 |
| Parc Caergybi a Sinema'r 'Empire' (Cyngor Tref Caergybi) | £50,000 | Ailddatblygu Parc Caergybi ac ehangu Sinema'r 'Empire'. Defnyddir cyllid yr Ymddiriedolaeth yn benodol ar gyfer uwchraddio'r Parc. | Trosglwyddwyd Parc Caergybi i'r Cyngor Tref ym mis Gorffennaf. Disgwyliwyd cael penderfyniad y Loteri Fawr ym mis Awst ond cafodd ei ohirio tan fis Hydref. Bu'r cais yn aflwyddiannus ac o ganlyniad mae'r Cyngor Tref yn edrych am ffynonellau cyllidol cyfatebol. Trefnir cyfarfod gyda'r Cyngor Tref i drafod y prosiect ymhellach. | DIM |
| Neuadd Bentref Llanddona | £45,000 | Prynu hen ysgol i ddatblygu Neuadd Bentref newydd ar gyfer Llanddona. | 'Roedd y cais o Raglen Wledig y Loteri yn aflwyddiannus ond cafwyd arian o Gronfa Cynlluniau Datblygu Gwledig i brynu'r ysgol ym mis Hydref. Cyflwynir cais pellach i Gronfa Pobl a Lleoedd y Loteri Fawr ym mis Rhagfyr. Mae trafodaethau yn parhau gyda Swyddogion y Cyngor ynghylch prynu'r ysgol. | DIM |

| Prosiect | Grant | Gweithgaredd | Cynnydd | Grant a hawliwyd |
|---|---|---|---|---|
| Hyb Cyflogaeth a Hyfforddiant (Cymunedau yn Gyntaf Môn Cyf.) | £35,000 | Datblygu Hyb Cyflogaeth a Hyfforddiant. | ‘Roedd canlyniadau’r arolwg a’r yr adeilad gwreiddiol arfaethedig yn waeth na'r disgwyl ac o ganlyniad, maent yn ystyried prynu a rhoi estyniad ar adeilad arall. Cyflwynwyd ceisiadau am gyllid cyfatebol o’r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol, y Cynllun Datblygu Gwledig a Chyllid Adfywio Llywodraeth Cymru. Disgwylir penderfyniadau erbyn y Nadolig gyda'r bwriad o ddechrau gwaith ar y safle ym mis Ionawr. | DIM |
| Gorsaf Reilffordd Llangefni (Cwmni Tref) | £25,000 | Ailddatblygu hen adeilad yr orsaf reilffordd. | Angen ymgynghoriad cyhoeddus cyn cyflwyno cais Loteri. Mae cyhoeddiad LlC ar ailagor gorsafoedd wedi cael effaith ar y prosiect. | DIM |
| Adeiladu Cymunedau (Medrwn Môn) | £25,000 | Costau rhedeg i gefnogi ac ehangu'r Prosiect Adeiladu Cymunedau. | Mae'r prosiect yn gweithio tuag at sefydlu Hyb Cymunedol yn Amlwch ac yn gweithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion ar hyn o bryd i fapio gweithgareddau. Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i sefydlu dwy Gynghrair Gymunedol yn Amlwch a Chaergybi. Mae’r Cyngor Ieuenctid wedi recriwtio 32 o bobl ifanc ac wedi cymryd rhan mewn nifer o ymgynghoriadau’r Cyngor, gan gynnwys Cyllideb 2018/19 a’r Cynllun Corfforaethol. Mae’r Panel Dinasyddion wedi recriwtio 10 aelod newydd a hefyd wedi cymryd rhan yn ymgynghoriadau’r Cyngor. | DIM |
| Rheilffordd Ganolog Môn | £25,000 | Adfer coridor rheilffordd Gaerwen i Amlwch. | Bu oedi o ganlyniad i gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynglŷn â’r posibilrwydd o ailagor Gorsaf Llangefni. Ni ellir symud ymlaen gydag arian y Loteri nes cael prydles gan Network Rail ar gyfer y llinell ac mae hynny’n cael sylw ar hyn o bryd. | DIM |
| Clwb Bocsio Caergybi | £20,000 | Estyniad ac adnewyddu cyfleusterau. | Cyflwynir cais Loteri yn dilyn newidiadau ym mhroses ymgeisio'r Loteri Fawr. | DIM |
| Byncws Cadetiaid Môr Caergybi | £20,000 | Ail-doi y Byncws. | Arweiniodd y gostyngiad yn y dyraniad gan yr Ymddiriedolaeth at fwlch gyllidebol. Yn chwilio am ffynonellau cyllid eraill ac yn gofyn am brisiau gan gwmnïau toi. | DIM |
| **Cyfanswm** | **£350,000** | | | **£54,513** |